YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1895. [RHIF 85.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. OWEN EVANS, CEFNCOED, 1808—1865.

MAE genyf gofion bron mor foreu a bron mor fyw am Owen Evans ag sy genyf am fy nhad a 'mam. Ymwelai â chartref fy rhieni yn rheolaidd ac yn fynych, ac yr oedd iddo roesaw mawr yno, yn enwedig genym ni, blant, a gellir dybynu fod rhyw reswm da am hyny. Deuai i'r ysgol hefyd, a gedwid gan fy nhad, yn achlysurol; tua phrydnawn dydd Gwener y byddai hyny fynychaf, a gollyngai'r plant yn rhydd am weddill y dydd er mawr lawenydd iddynt. Tebyg fod peth cyffelyb yn cael ei wneuthur yn ei ysgol yntau ambell bryd."

Mab oedd Owen i John a Sarah Evans, o'r Pyrlip,* yn Llandyssul, ac yno y ganwyd ef, Ebrill 23, 1808, yn un o efelliaid, ag oeddynt, fel y dygwydd yn fynych, mor debyg i'w gilydd, fel yr oedd eu rhieni ar y cyntaf, a dyeithriaid am flynyddoedd, yn analluog i'w gwahaniaethu. Fel gefelliaid yn gyffredin, yr oeddynt yn agos iawn yr un oedran, a phan gwympent maes â'u gilydd, fel y mae'n dygwydd gyda phlant weithiau, ceisiai un fynu ei ffordd a phenderfynu'r ddadl trwy ddywedyd, "Yr wyf fi'n henach nâ thi;" tra'r atebai'r llall, "Wyt ti ddim ond hanner awr yn henach i gyd;" ac yna parhëid y paffio fel o'r blaen.

O fewn cof i mi, yr oedd digon o wahaniaeth rhwng y ddau frawd.† Yr oedd Dafydd wedi myned yn dew, tra'r oedd Owen, neu "Onè," fel y gelwid ef weithiau, wedi parhau yn deneu hyd y diwedd—mor

* Paham y sillebir enw y lle hwn yn Birdlip? Pyrlip yw ar lafar gwlad. Byddai mor rhesymol ei alw yn *Upper Lip*.

† Mi adwaenwn frawd arall yn dda unwaith, Mr. Evan Evans, Ysgubor Fawr. Mab iddo ef yw y Parch. Owen Evans, M.A., Prif Athraw presennol Coleg Llanymddyfri.

deneu, fel y darfu i löwr yn Aberdar, unwaith, wrth ei weled ef a'r Parch. David Jones, Blaengwrach, yn myned heibio, sefyll yn ddisymwth, a gwaeddi mewn syndod nad oedd erioed wedi gweled dwy ganwyll ddimai yn cydgerdded yr heol o'r blaen.

* * * * *

Nis gwn i ba le yr aeth plant y Pyrlip gyntaf i'r ysgol; ond gynted y daeth y gefelliaid yn ddigon hen, tua 1820, fe'u gyrwyd i ysgol enwog D.D., Castell Hywel, yr hon a gynnelid y pryd hwnw yn rhywle yn nghymmydogaeth Llwynrhydowen. Cyn hir cafodd Dafydd barotoi i fyned yn siopwr, ac yn nghwrs amser ymsefydlodd yn Nhregroes, lle y treuliodd oes hir mewn anrhydedd a pharch cyffredinol, ac y gorphenodd ei yrfa mewn oedran teg Chwefror 11, 1878. Arosodd Owen gyda D.D. nes oedd yn addfed i fyned i Goleg Caerfyrddin. 'Wn I ddim llawer am ei helynt yn yr ysgol, ond yr wyf yn tybio iddo fod yn weithiwr ffyddlon a diwyd, neu ni fuasai yn llwyddo gystal ag a wnaeth yn ol llaw.

* * * * *

Cyfansoddai Mr. Evans lawer iawn o farddoniaeth pan yn blentyn, ac yr oedd ganddo amryw gyfrolau bychain mewn ysgrifen. Nis gwn a ydyw'r cyfrolau hyny ar glawr yn awr ai nad ydynt. Ni ddygwyddodd i mi erioed eu gweled, ac yr wyf yn amheu a ddarfu iddo barhau'r gelfyddyd wedi iddo gyrhaeddyd oedran ystyriaeth. Arferai ei gydefrydydd (Dr.) David Lloyd, ddywedyd wrth y myfyrwyr fod pob dyn ieuanc yn fwy neu lai o fardd hyd yn 23 oed, ond fod y rhan amlaf yn dyfod yn gallach ar ol hyny. Yr wyf wedi hanner tybio mai Mr. Evans oedd awdwr yr awdl benrydd "I'r Môr," yn Yr Ymofynydd, 1852, t. 75, er y byddai ofn arnaf fod yn euog o gabldraeth i haeru hyny yn bendant.

Aeth Mr. Evans i'r Coleg yn 18 oed, ac er fod ganddo gyfeillion gwresog a chalonog yn mhlith y myfyrwyr, dipyn yn helbulus y bu o ran ei deimladau ar y dechreu; lawer diwrnod yr oedd ei chwant yn gryf i ffoi adref. Yr wyf yn deall mai Euclid oedd y bwgan mawr. Gydag ychydig help ac annogaeth, fodd bynag, fe orchfygodd yr anhawsderau, fe ddiflanodd y cymmylau, daeth yr wybren yn glir, a threuliwyd gweddill yr amser yn gweithio yn galed ac yn llwyddiannus. Os wyf yn cofio yn iawn, fe bontiwyd llawer gagendor gyda chynnorthwy y (Dr.) William Davies (1804—59), Ffrwdyfal. Gwerthfawr yw y cyfaill mewn angen.

Wele'n canlyn gopi o'r drwydded (*license*) i bregethu a gafodd Mr. Evans; y mae'r gwreiddiol yn awr yn meddiant ei weddw, yn Laburnum House, Cefncoed:—

"*County of the Borough of Carmarthen.* "I, Grismond Phillips, Esquire, Mayor, and one of His Majesty's Justices of the Peace in and for the said County of the Borough, Do hereby certify that Owen Evans, a student at the Presbyterian College, Carmarthen, did this day appear before me and did make and take

and subscribe the several Oaths and Declarations specified in an Act made in the Fifty Second year of the Reign of King George the Third, Intituled 'an Act to repeal certain Acts and amend other Acts relating to Religious Worship and Assemblies and Persons teaching or preaching therein.'

"Witness my hand this First day of February One thousand eight hundred and twenty seven. "GRIS. PHILLIPS,

"Mayor."

Ar ol gorphen ei bedair blynedd yn y Coleg, bu am ryw amser gartref, yn cadw ysgol mewn ystafell gyfagos, ac yn pregethu'n achlysurol lle byddai galw. Wedi hyny adeiladwyd tŷ iddo yn Maesmeillion i gadw ysgol. Yr oedd T. T. yn un o'i ysgolheigion yno. Adwaenir y tŷ hyd heddyw fel y "*College*." Gwasanaethodd gryn lawer yn Mhantdefaid yn ystod yr adeg hon, ond nid fel gweinidog. Gan nad oedd un maes gweinidogaethol gyda'r enwad yn Nghymru yn agored iddo, efe a symmudodd i Loegr, ac ymsefydlodd fel athraw cynnorthwyol i un Mr. Whiting yn Evesham. Ar ol chwe' mis gorfu iddo ymadael o herwydd ei olygiadau crefyddol. Treuliodd chwe' mis arall fel athraw yn nheulu un Mr. Greaves yn Birmingham; ac yna derbyniodd alwad i fyned yn weinidog Undodaidd i hen eglwys Blaengwrach, yn Nghwmnedd. Arosodd yno o Ionawr, 1836, hyd Awst, 1837, a symmudodd i Gefncoed, lle y treuliodd weddill ei oes, yn gweithio yn galed, i gynnulleidfa fechan a thlawd, am gyflog oedd yn anfynych yn cyrhaedd £30. Yn ystod yr 28 mlynedd hyny cymmerodd ran weithgar a selog yn nghyfarfodydd chwarterol a blynyddol yr enwad, yn gystal ag yn y dadleuon llenyddol a duwinyddol a gyfodent o bryd i bryd. Gorphenodd ei yrfa nos Iau, Ionawr 9, 1865, yn 57 oed. Ddydd ei angladd darllenodd a gweddiodd y Parch. Titus Lloyd yn y tŷ, ac yn y capel gwasanaethodd y Parch. T. Thomas; testyn ei bregeth, Hebreaid xiii. 7, "Meddyliwch am eich blaenoriaid," &c.

Ymddengys fod ganddo am rai misoedd yn flaenorol fath o ragfeddwl fod ei bererindod bron ar ben. Y dydd diweddaf o'r flwyddyn gwasanaethai yn angladd dyn ieuanc oedd wedi colli ei fywyd dan y ddaear, ac wrth gyfeirio at yr ymadrodd yn y Llyfr Gweddi, "Oddiwrth angeu disyfyd, gwared ni, Arglwydd daionus," dywedodd na ddymunai efe un farwolaeth yn well, nad oedd un yn felusach yn ei olwg ef; nad oedd arno ef ddim ofn marw, ond ei fod yn ofni cael ei hir boeni. Ddydd Calan cymmerodd yn destyn Jeremiah xxvii. 16, "O fewn i'r flwyddyn hon y byddi farw." Cyfeiriai at enwau ei frodyr yn y weinidogaeth oeddynt wedi ymadael yn ddiweddar, a llefarai yn gyffrous am ei iechyd methiantus ei hunan, ac am ansicrwydd cydnabyddedig bywyd dyn. Bu yn Mwrdd y Gwarcheidwaid yn Merthyr y Sadwrn blaenorol. Ymddangosai yn glaf, ond nid achwynai. Teimlai yn dra analluog i gerdded, a chafodd ei gario adref, ond gorfu iddo fyned i'r gwely ar unwaith. Pregethodd boreu dydd Sul, ond yn fyr; yn yr hwyr yr oedd yn rhy analluog.

Nos Lun, cafodd angel marwolaeth ef yn nghanol ei deulu, ac wrth fyned heibio rhoddodd iddo loes farwol. Yr oedd yn eistedd gerllaw'r tân, yn darllen ei newyddiadur, yr hwn yn ddisymwth a syrthiodd o'i law, a syrthiodd yntau yn ol yn ei gadair gydag ochenaid wanaidd; ac mewn eiliad yr oedd y cyfnewidiad mawr wedi cymmeryd lle—ymdrech bywyd drosodd, yr yspryd wedi dychwelyd at yr Hwn a'i rhoddodd, ac Owen Evans wedi myned "trwy y geledig gul adwy." Yr oedd y meddwl fu yma mor fywiog wedi gorphwys oddiwrth ei lafur; y tafod a draethai mor hyawdl am enwau Lladin, a berfau Groeg, a gwreiddiau Hebraeg, ac ieithweddau Syriaeg, wedi ei ddystewi am byth; a'r oll oedd yn aros ar ol o'r dyn, yr ysgolhaig, yr ieithydd, a'r duwinydd, oedd ffurf ddynol ddifywyd, yn nghyd â'r argraff fywiol yn nghoffadwriaeth cyfeillion cariadus.

Yr wyf yn meddwl mai cyfieithad o eiriau Mr. T. Stephens o Ferthyr yw y desgrifiad canlynol:—

"Yr oedd Mr. Evans, o ran ei gymmeriad fel dyn, yn garedig a siriol; fel cymmydog, yn heddychol a thangnefeddus; fel cyfaill, yn ddiffuant a dirodres, yn parhau yn ffyddlon yn mhob amgylchiad. Nid oedd neb yn fwy gwrthwynebus ganddo nâ'r dyn rhagrithiol a dauwynebog. Fel ysgolfeistr, yr oedd yn cael ei garu gan ei ysgolheigion; fel pregethwr, yr oedd yn fynych yn ystyrlawn ac argraffiadol, a phob amser yn llawn bywiogrwydd. Fel duwinydd Undodaidd, perthynai i hen ysgol Priestley a Belsham, yn hytrach nag i ysgol newydd Channing a Martineau. Ar bwysfawredd y swydd weinidogaethol, daliai yr olwg gaeth—yr olwg a osodir allan yn yr hen ddiareb, 'Unwaith yn offeiriad, offeiriad am byth,' a daliai mai hyn oedd y gwaith mwyaf urddasol y gallai dyn ymgymmeryd ag ef.

"Yr oedd yn wastad yn barod i roi addysg glasurol i ddynion ieuainc o bob enwad, ar yr unig delerau eu bod yn ymgyflwyno i waith y weinidogaeth. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, yn hyddysg iawn mewn llenyddiaeth gyffredinol, ac yn fyfyriwr caled mewn berniadaeth Feiblaidd a duwinyddiaeth hyd y diwedd. Fel gwarcheidwad y tlodion, yr oedd bob amser yn oleddu at ochr trugaredd. Yn ei fywyd annghyhoedd cerid ef yn gyffredinol; a'r rhai a'i hadwaenent oreu a'i parchent fwyaf."

Mae fy ngofod yn cyfyngu arnaf, er cymmaint y caraswn adrodd a manylu ar amryw bynciau, megys ei helynt ef a'i gyfaill o Aberdar gyda'r Siartiaid; yr helynt am y trafaelwr fu'n dangos ei bistol iddo ar y mynydd; y dysteb (oriawr a chadwen aur) a dderbyniodd gan ei ysgolheigion; ei fwriad i fyned i Glasgow; ei ymgais i ddysgu canu, er mwyn cario ar Dr. Lloyd, yr hwn oedd wedi dweyd nad oedd dim canu ynddo, ac y byddai mor rhwydd i'r gath ddysgu chwareu crwth ag iddo ef ddysgu ton; y modd y darfu iddo chwareu ei accordion newydd yn nghlust y Parch. Titus Evans, yr hwn oedd yn yr ysgol gydag ef ar y pryd, nes peru cymmaint braw ar hwnw ag i wneuthur iddo dybied fod diwedd y byd wedi d'od. Caraswn adrodd cofion plentyn am ddau gwrdd y bum ynddynt yn agos 50 mlynedd yn ol, pan oedd Mr. Evans yn gwasanaethu: y naill mewn amaethdy ar Gefn-

pennar, pan y pregethodd ar y geiriau, "Tyred a gwel." Yr oedd y cynnulliad yn lluosog a'r gwrandawiad yn astud iawn. Y pwnc oedd Undodiaid ac Undodiaeth, ac nid wyf yn gwybod i mi erioed deimlo amddiffyniad ein ffydd yn cael ei draddodi gyda mwy o nerth a dylanwad. Y tro arall oedd yn Mhenderyn, yn nhy hen foneddwr oedd yn fwy enwog am ei iaith garlamus nag am ei yspryd crefyddol; ac etto, ni wn I a ydyw yn deg i farnu yr hen wr? Yr oedd yn amlwg fod iddo deimladau tyner a gwresog, canys cyffyrddid ef hyd at ddagrau pan oedd Mr. Evans yn darllen dammeg y Mab Afradlon. Yr oedd sylwadau yr hen wr, tra'r oedd y darllen yn myned yn mlaen, yn uchel ac yn lluosog, a phob brawddeg yn swn canmoliaeth—canmoliaeth gyda llwon a rhegfeydd yn gymmysg. Rhyw arferiad gwaradwyddus yw yr arferiad o dyngu a rhegu; ac fel llawer o arferion ereill, yn anhawdd iawn ei adael heibio. Dysgir yr arferion yn ieuanc, ond fe'u parheir wedi myned yn hen, nes ydynt yn fynych yn warth i grefydd ac yn warth i ddynoliaeth. Caraswn fanylu hefyd am y wraig ieuanc a ddaeth ato un nos yn hwyr mewn trwbwl meddwl mawr, ac a ofynodd iddo os gweinidog oedd, ac wedi cael ateb cadarnhaol, a ddywedodd fod ganddi fabi gartref ar fin marw, a thaer ddymunai arno ddyfod i'w fedyddio. Wedi ceisio ymesgusodi mewn llawer dull a modd, a hithau yn parhau yn ei thaerineb, efe a aeth gyda hi ac a fedyddiodd y plentyn. Yn mhen pythefnos daeth ato drachefn, ond yn awr yn siriol a hapus yr olwg arni. Yr oedd ganddi lonaid basin o wyau newyddion yn rhodd i Mr. Evans am ei gymmwynas i'r plentyn, yr hwn oedd wedi adnewyddu ei einioes o'r nos hono allan, ac erbyn hyny wedi gwella bron yn hollol.

Byddai yn annhegwch o'r mwyaf â choffadwriaeth Mr. Evans i ddwyn y llinellau hyn i derfyniad heb air yn rhagor am dano fel llenor. Ysgrifenodd lawer, a hyny yn dda. Bu am flynyddau yn un o brif ohebwyr Yr Ymofynydd, a cheir yno erthyglau ganddo ar y Pechod Gwreiddiol, Gwirionedd Cristnogrwydd, Duwdod Crist, Undod Duw, Y Cenedliad Gwyrthiol, Rhaghanfod Crist, &c. Bu mewn dadl â'r Parch. D. L. Evans ar Sylfaen Crefydd, pan y dadleuai efe dros y Beibl fel sylfaen, tra'r hawliai D. L. mai yn y Natur Ddynol oedd. Hefyd â'r Parch. Rhys Gwesyn Jones, yn awr yn America, ar Iawn Ddarlleniad 1 Tim. iii. 16. Parhaodd y ddadl hon yn hir, fel yr oedd rhai wedi hir flino arni, a chanodd Amnon II. fel hyn:

Am *Hos* a *Theos* ni thawant;—gwneyd Duw
O gnawd dyn nis medrant;
Am fab saer yr ymdaerant,
Gan amheu'r gwir gan Mair gant.

Dadleuai Gwesyn dros y darlleniad cyffredin,

Duw a ymddangosodd yn y cnawd, &c.

Dadleuai Mr. Evans dros *Ho* neu *Hos* fel y darlleniad gwreiddiol, gyda gogwyddiad at y blaenaf, fel hyn,

Yr hyn a ymddangosodd yn y cnawd, &c., gan olygu "y dirgelwch." Darlleniad y Cyfieithad Diwygiedig Seisnig, 1881, yw

He who was manifested in the flesh, &c.,

ac ar ymyl y ddalen darllenwn, "The word *God* in place of *He who* rests on no sufficient evidence. Some ancient authorities read *which*." Mae y pwnc bellach wedi ei benderfynu, fel na fydd achos mwy i amheu am wir ddarlleniad yr adnod, er y gellir dadleu etto ar ei hystyr.

Achlysurwyd y ddadl gan ymosodiad sarhaus a wnaed gan Mr. Jones ar bregeth a draddodwyd gan Mr. Evans yn Mhenbont-ar-Ogwr, Hydref 1, 1857, oddiwrth 1 Tim. iii. 16. Yr oedd yr ymosodiad yn gosod Mr. Evans ar ei amddiffyniad, nid yn unig o blaid ei ffydd, ond hefyd o blaid ei garitor fel athraw ysgol. Cychwynwyd y ddadl yn *Yr Annybynwr*, ond cyn hir fe gauwyd y maes hwnw yn erbyn Mr. Evans. Anfynych y ca'r Undodwr chwareu teg gan olygwyr iawn-grediniol (?) hyd y nod i amddiffyn ei hun yn erbyn ymosodiadau a wneir arno. Caniateir yr ymosodiad, ond nid yr atebiad. Onid da i ni, yn ngwyneb hyn, fod genym ein cyhoeddiad ein hunain, pe dim ond er mwyn hunan-amddiffyniad? (3) Bu mewn dadl â'r Parch. W. Thomas, M.A. (Gwilym Marles). Duwinyddiaeth Theodore Parker (1810—1859) oedd prif bwnc y ddadl hon. Y sawl a fyno ddarllen hanes dadblygiad Undodiaeth yn Nghymru, caiff help mawr yn y dadleuon y bu Mr. Evans yn cymmeryd rhan ynddynt. Dangosai Mr. Evans lwyr ymroddiad i feistroli ei bwnc bob amser, a darllenodd weithiau T. Parker yn fanwl er ceisio deall ei safle a gwneuthur cyfiawnder ag ef.

Bu Mr. Evans yn briod ddwywaith: (1) â Jennet, merch y Parch. D. Davis, Castell Nedd, ac wyres i D.D., Castell Hywel, o'r hon y cafodd amryw blant, y rhai a fuont farw oll yn eu mabandod. Bu y fam farw Mai 20, 1844, ac ar y 25ain gwasanaethodd J. Jones, Aberdar, yn ei hangladd; testyn ei bregeth, 1 Thes. iv. 18. Priododd (2) â Margaret, merch Evan Harris, Penderyn, ac wyres i'r hen fardd William Harry (1762—1844), Garwdylau, ac yntau yn wyr i Sion Llewelyn (1690—1776), bardd hwnw hefyd, ac un o sylfaenwyr yr achos yn H.D.C., Cefncoed. Y mae Mrs. Evans etto yn fyw, yn nghyd a mab a dwy ferch.

GWEDDI BLWYDDYN NEWYDD.*

(ADELAIDE ANNE PROCTOR).

NID yw fy nghais, o Dduw, am fyw o hyd
Mewn hoen di drai;
Ac nid yw 'nghais it' wneyd ar unrhyw bryd
Fy maich yn llai.

---

* Gweler YMOFYNYDD Ionawr, 1893, lle mae cyfieithad arall. Beiai brawd o ganwr y cyfieithad hwnw am ei fod ar fesur gwahanol, ac nas gellir ei ganu ar y dôn. Felly, dyma gais newydd i gadw mesur y gwreiddiol.

Ni cheisiaf fod fy ffordd yn frith bob dydd
Gan flodau Ha';
Yn mhob rhy felus mae rhyw golyn cudd,
Gwn hyny'n dda.

Un cais yn unig wnaf, fy Nhad, fy Nuw,
Dwg fi i'r iawn;
Er pallu'm nerth a'm calon fyn'd yn friw—
Rho heddwch llawn.

Nid yw fy nghais am iti roddi 'nawr
Lawn oleu im';
Rho imi drem fel gallwyf droedio'r llawr,
Heb ofni dim.

Nid wyf am ddeall yr holl groesau ddaw
I gwrdd â mi;
Gwell trwy'r tywyllwch megys teimlo'th law,
A'th ganlyn Di.

Diorphwys ddydd yw lloniant; fel taw'r nos
Hedd Dwyfol sydd;
O dwg fi, Arglwydd, trwy bob gwyntoedd croes,
I'r perffaith ddydd. T.C.U.

Y CYNGHORAU NEWYDD.

Mae'n ddiamheu na fu erioed y fath ferw etholiadol trwy yr holl wlad —yn Nghymru a Lloegr—ag a fu yn ystod y mis a aeth heibio. Yr oedd y ddeddf a basiwyd ar ddechreu y flwyddyn yn dod i rym, a'r etholwyr—y bobl gyffredin—yn cael y cyfleusdra am y tro cyntaf erioed i gymmeryd rhan yn llywodraethiad eu plwyfi a'u dosparthiadau. Pan y gwelid dau ddyn yn siarad, gellid bod yn sicr bron mai yn nghylch y Cynghor Plwyf neu'r Cynghor Dosparth y siaradent. Er mor bwysig oedd yr amgylchiad, ac er cymmaint o swyn sydd mewn etholiad i'r meddwl dynol braidd yn gyffredinol, mae'n bossibl cael digon ar bethau fel hyn. "Nid da rhy o ddim," medd y ddiareb; a chredwn mai hyn oedd teimlad llawer yn ystod y mis a aeth heibio, yn enwedig pan yn agoshau at ei derfyn, mewn perthynas i etholiadau. Pan yn ysgrifenu'r llinellau hyn yr ydym yn nghanol y frwydr, ac felly, mae dipyn yn anfanteisiol i ddweyd dim am yr etholiad—ei effaith, &c. Er gwneyd hyn yn iawn, gwell fyddai, efallai, gadael i ychydig amser fyned heibio, fel y caffo ein teimladau amser i oeri ychydig, ac felly i fod mewn cyflwr mwy ffafriol i draethu barn ar y mater; ond rhaid cyfaddef fod y demtasiwn yn rhy gref. Ni phetruswn ddweyd fod y gyfraith hon—Cyfraith y Cynghor Plwyf—yn un

o'r rhai mwyaf pwysig a osodwyd ar ddeddflyfr Prydain Fawr yn ystod y canrif. Ni fyddem yn mhell o le pe dywedem y bwysicaf—*ond un*, sef, Deddf Dyddimiad y dreth ar yr yd. Un o'r bendithion mwyaf a ddaethant i ran y wlad hon erioed oedd y ddeddf hono; ac nis gallwn beidio arswydo wrth feddwl am y trueni fyddai yn sicr o ddod i ran y wlad heddyw—yn enwedig y dosparth gweithgar—pe bai y ddeddf hono, trwy ryw ddamwain, yn cael ei dyddimu, yr hyn yw dymuniad rhai dynion yn y dyddiau hyn. Mae cyfreithiau pwysig ereill wedi eu pasio er 1832; ac y mae pob un o honynt wedi bod yn rhagbaratoad i'r gyfraith hon. Ond gellir dweyd am y cyfreithiau—braidd yr oll o honynt—nad oeddynt yn cyffwrdd ond ychydig iawn â bywyd beunyddiol y dosparth gweithgar,—dosparth sydd o'r dechreu wedi cael ei gadw dan draed. Yr oeddynt yn gosod mwy o allu yn ei law, ac yr oedd yntau trwy hyny yn cael ei ddyrchafu o'i gaethiwed, ac yn dod yn fwy annybynol. Etto, nid oeddynt yn gwneyd nemawr, os dim, i'w alluogi i ennill moddion cynnaliaeth yn rhwyddach, ac i ennill digon o hono, yr hyn oedd ei brif angen. Mae yn ddyddorol, er ar yr un pryd, yn boenus, clywed yr hen bobl yn desgrifio y dull yr oeddynt yn byw er's deugain mlynedd yn ol, a llai nâ hyny hefyd; yr anhawsderau i gael digon o ymborth—hyd y nod digon o fara, heb son am ddim arall, a hyny o herwydd y prisiau uchel oedd ar nwyddau, a'r huriau bach a dderbyniai dynion am ddiwrnod o waith—diwrnod oedd yn parhau o bedwar a phump o'r gloch yn y boreu hyd wyth a naw o'r gloch yn yr hwyr. Gwir iawn (fel y'n hadgofir ni yn fynych) nad ydym ni yn awr yn gwybod nemawr am fywyd fel hyn, a diolchwn o galon am hyny. Mae'r amser yn gwella; ac fe ddaw yn well etto; ac er fod llawer yn gofidio yn ddwys wrth weled y dyn tlawd yn ymgodi, ni wneir hyny gan un dyn o deimlad gwir Gristionogol. Credwn y gwna'r ddeddf newydd effeithio yn ffafriol neillduol ar ddyrchafiad y dyn tlawd; a gwna hyny, nid yn unig o herwydd ei bod yn rhoi galluoedd mawr yn ei law, ond hefyd mewn cyfeiriadau ereill. Un effaith neillduol a ddysgwyliwn weled yn canlyn y gyfraith newydd, yw lleihad yr yspryd gwasaidd a llwfr sydd mor gyffredin yn ein gwlad. Nid ydym yn beio'r dynion am eu bod yn wasaidd; mae eu hamgylchiadau yn eu gwneyd yn wasaidd a llwfr ar eu gwaethaf; mae ymborth—bara a chaws—yn dod yn agos iawn at bob dyn, ac nid yw dyn yn gyffredin yn foddlon gwneyd dim a fydd (yn ol ei farn ef) yn debyg o'i niweidio yn hyn o beth. Ond beiwn y gyfundrefn sydd yn gwneyd y gwaseidd-dra hwn yn bossibl; a hoffem weled y dydd pan y bydd pob dyn wedi dod i deimlo ac i barchu ei ddynoliaeth i raddau digonol fel ag i fod yn ffyddlon iddi yn mhob amgylchiad. Nid ydys yn dweyd y gwneir hyn gan y gyfraith newydd; mae'n rhaid cael cyfreithiau ereill yn gyntaf; ond dywedwn y bydd dylanwad y gyfraith newydd yn gweithio yn y cyfeiriad hwn, ac yn gweithio yn gryf hefyd. Beth yw'r ffeithiau? Hyd yn hyn mae ein plwyfi wedi cael eu llywodraethu yn hollol gan un dosparth. Yr oedd y dosparth mwyaf lluosog heb un llais mewn dim, ac hyd yn ddiweddar heb ganddynt un llais yn newisiad Aelod Seneddol dros eu sir, chwaethach

yn newisiad dynion i reoli eu plwyfi; ac mewn canlyniad, yr oedd wedi dod i feddwl—i gredu—fod yr hawl i'w lywodraethu wedi cael ei rhoddi i'r dosparth cyfoethog, ac mai rhyfyg fyddai iddo ef ymhyryd. Ond mae'r gyfraith newydd wedi dangos iddo fod y syniad hwn o'i eiddo yn gamsyniol, ac fod ganddo ef yr un hawl—dim mwy a dim llai—i gael llais yn rheolaeth ei blwyf ag sydd gan y boneddwr cyfoethog sydd yn byw yn ei balas gorwych, ac y mae'r deffroad rhyfeddol sydd wedi cymmeryd lle yn mysg y dosparth gweithiol trwy'r holl wlad yn dangos fod y wers wedi cael ei dysgu. Gallem ymhelaethu ar yr effaith ffafriol a daionus a ga'r ddeddf newydd ar sefyllfa y dosparth gweithgar—yn fydol, yn feddyliol, ac yn foesol. Ni fydd yr effaith yn weladwy ar unwaith, ond daw i'r golwg yn raddol. Cwyn mawr y dyddiau hyn yw, fod y boblogaeth yn cilio o'r wlad i'r trefi. Y rheswm yw, eu bod yn gallu ennill eu bywioliaeth yn hawddach—a gwell bywioliaeth—yn y dref nag yn y wlad. Credwn pe cai dynion unwaith gyfleusderau i ennill bywioliaeth gysurus yn y wlad, a'i hennill heb labyddio eu cyrff trwy lafur gormodol, na chlywid son mwyach am yr achwyniad fod poblogaeth y wlad yn lleihau. A rhoddir y cyfleusdra hwn yn rhanol gan y ddeddf hon: mae yn rhoddi hawl i unrhyw un fyddo yn dewis i gael rhandiroedd am bris rhesymol, ac felly, am bris fydd yn ei gwneyd yn bossibl iddo wneyd rhywbeth o honynt, heblaw digon i dalu am y tir. Pe na fai y gyfraith newydd yn rhoddi dim arall gwerth son am dano, byddai hyn yn unig yn ei gwneyd yn werthfawr, ond y mae yn cofio hefyd fod dyn yn rhywbeth heb anifail—fod ganddo feddwl. Dymunem yn fawr weled pob plwyf yn cymmeryd mantais ar y gallu a roddir gan y ddeddf i sefydlu llyfrgelloedd a darllenfeydd, a darparu ystafell (yr ysgoldy neu ryw adeilad cyfleus arall) lle y gall eu bechgyn (a'u merched hefyd) fyned yn yr hwyr i ddarllen ac i siarad am bynciau'r dydd; ac ni chredwn y gwnai un dyn sydd yn dymuno gweled yr oes yn gwella achwyn o herwydd y draul ychwanegol a achosid felly. Ofnwn, er hyny, nad yw'r wlad yn addfed i hyn etto; ond nid yw'r amser yn mhell pryd y bydd yn addfed. Mae'r ddeddf ynddi ei hun yn allu addysgol cryf. Dywedwn hyn oddiar wybodaeth. Gwena rhai wrth weled gweithwyr anllythyrenog yn ceisio am seddau ar y Cynghorau Plwyf; ond ni raid iddynt. Gwyddom am lawer o weithwyr ydynt bellach yn aelodau o gynghorau ydynt wedi ymroddi i astudio y gyfraith newydd, ac er nad ydynt erioed wedi cael ond ychydig o fanteision addysg, maent wedi llwyddo i'r fath raddau fel y taflent lawer o'u diystyrwyr i'r cysgod yn rhwydd. Nid oeddynt yn ddarllenwyr o'r blaen; ond y maent yn awr yn darllen yn awchus unrhyw beth a all eangu cylch eu gwybodaeth ar y pwnc; ac fel y bydd y dynion hyn yn dod i deimlo dyddordeb mwy yn y gwaith, ni chredwn y diflana'r awydd hwn am wybodaeth; a bydd y wybodaeth a gynnyrchir gan hyn yn nerthol neillduol: dylanwada ar eu meddwl ac ar eu bywyd.

Un sylw yn mhellach: mae'r gallu sydd wedi ei roddi yn llaw'r bobl gyffredin, fel yr ymddengys, wedi creu rhyw ofn mawr yn mynwes

rhai dospeirth o fobl. Nis gallwn beidio sylwi mor afresymol yw'r ofn hwn. I bob dyn sydd yn caru dynoliaeth, mae hyn yn achos llawenydd. Mae'r gwir wladgarwr yn dymuno gweled ei wlad yn wlad gref a chadarn. Y ffordd oreu i ddwyn hyn o amgylch yw gwneyd pob dosparth o'r boblogaeth yn hapus, mor bell ag y gellir gwneyd dynion yn hapus trwy gyfreithiau teg a chyfiawn, a thrwy ryddid. Mae'r syniad mai wrth nerth milwrol y mae barnu nerth cenedl yn cyflym ddiflanu, a diflanu yn llwyr a wneled; ond mae presennoldeb dosparth o ddynion anfoddlawn i'w cyflwr, yr hyn a achosir gan gyfreithiau gwael, celyd, ac annheg, a chan gaethiwed, yn ffynnonell o wir berygl, ac wedi bod yn achos dinystr i lawer cenedl cyn hyn; a dylai pob dyn sydd yn caru llwyddiant ei wlad lawenychu yn mhob mudiad sydd yn tueddu—neu yn achos—i symmud ymaith unrhyw anfoddlonrwydd a ddichon fodoli yn mhlith y bobl.

PHILOS.

"SUMMER SUNS ARE GLOWING OVER LAND AND SEA."

(WALSHAM HOW.)

Gwenau glwysion Hafddydd dros y tir a'r môr
Daenant wawl ysplenydd yn anhyspydd stôr;
Llawenha'r holl ddaear dan belydrau byw—
Mae'i holl leisiau'n trydar cân o fawl i Dduw.

Llifa mwyn drugaredd Ior dros gyrau'r byd;
Rhoddion pur ei fawredd leinw'r ddae'r i gyd;
Mewn gogoniant glwysfad, helaeth fel y nef,
Y dysgleiria'i gariad pur tragwyddol ef.

Ior, ar ein dallineb rho dy lewyrch clir;
Am dy fwyn dadoldeb, gwna ni'th garu'n wir;
Pan ysgwyda cymmyl duon dros y nen,
Dad, O bydd yn ymyl i lwyr godi'r llen.

Ni'th amheuwn hefyd er rhoi'th wawl dan gudd;
Hebot, nos yw bywyd—Ti wnei angau'n ddydd;
Dangos Haul yr heuliau ar ein crwydrawl daith;
Arwain ni hyd lanau tragwyddoldeb maith.

Ceredigion. LLWYDRUDD.

NI ddichon y blodeuyn ddywedyd beth ddaw o'i arogl, ac nis dichon dyn ddywedyd beth sydd yn dyfod o'i ddylanwad a'i esiampl, y rhai dreiglant oddiwrtho ac a basiant yn mhell hwnt i'w orwel ar eu cenadwri o dda neu ddrwg.—*Beecher.*

OBERLIN (1740—1826).

(*Parhad o tud.* 279 *yn Rhifyn Rhagfyr*, 1894).

Canfu y gweinidog newydd yn fuan nad oeddid wedi dweyd gormod am drueni corfforol ac am ddiraddiad moesol y dyffryn, a dechreuodd ar ei waith yn uniongyrchiol i ddysgu adnabod y bobl, a chael ei adnabod ganddynt. Nid hir y bu cyn gweled mai y drwg mawr yr oedd ganddynt i ymladd ag ef oedd eu hunigedd a'u pellder oddiwrth y dref agosaf atynt, oblegyd nid oedd ganddynt un farchnad y gallasent ddwyn eu nwyddau iddi, nac i brynu yr hyn oedd yn eisieu arnynt. Gwnelent o'r goreu, pe gallasent agor trafnidaeth rhyngddynt a Strasburg. Ond sut i wneyd hyny? Ie, sut? Dyna'r cwestiwn mawr yr oedd gan Oberlin i'w benderfynu. Byddai rhaid saethu y creigiau a rythent yn ei wyneb yn mhob cyfeiriad, codi gwal gadarn am bellder o filltir a hanner wrth ochr cornant wyllt, fynyddig, er mwyn gwneyd ffordd ar ei phwys, a rhaid oedd hefyd godi pont dros y nant ei hun. Gorchwyl anhawdd, yn wir, pan ystyriom yr adnoddau prinion oedd ganddo wrth law; ond nid dyn oedd Oberlin i gael ei daflu i lawr gan anhawsderau. Dywedai fod anhawsderau wedi eu gwneyd er mwyn myned drostynt, ac nid gwaith hawdd oedd ei ddigaloni.

Wedi meddwl dros y mater yn ofalus, ac wedi tynu cynllun o'r ffordd o fwriadai wneuthur, galwodd yn nghyd ei blwyfolion ac eglurodd wrthynt ei fwriadau. Gwrandawent arno gyda genau agored. Yr oeddynt, meddent, wedi edrych arno o'r dechreu, fel dyn od, ond bellach, nid oedd y rhithyn lleiaf o amheuaeth yn eu meddwl nad oedd yn hollol allan o'i synwyrau. Ni fynent wneyd dim â'r fath anturiaeth wyllt. Eglurai Oberlin wrthynt y manteision a ddeillient iddynt trwy ymgymmeryd â'r hyn a geisiai ganddynt, ac ymresymai â hwy, ond y cyfan yn ofer: ni fynent wrando arno. Siaradodd drachefn, ac ymddangosai y dull difrifol yn yr hwn y siaradai i roddi hyfder i'w wrandawyr, ac wrth derfynu ei appêl atynt, cododd ei bâl ar ei ysgwydd, a gwaeddodd, "Pob un sydd yn gweled pwys yr hyn wyf wedi ei ddweyd, deued â gweithied gyda mi," a gafaelodd tân ei frwdfrydedd yn mron yr oll o honynt, a dylynasant ef.

Aeth y gwaith yn ei flaen, ond lluosogai yr anhawsderau; twriai y rhaiadrau mynyddig yn awr ac eilwaith dan sail y muriau, ac yr oedd yn rhaid newid cwrs y rhai hyny; rhaid darparu offer, a chwilio am arian. Helpiodd cyfeillion yn Strasburg ef ag arian, gwnaethpwyd y ffordd, gorphenwyd y bont, a daeth yr hyn oedd yn anmhossibl yn ffaith, ac unwaith drachefn gwireddwyd y ddammeg, "Trwy ffydd y gallwch symmud mynyddoedd." O fewn dwy flynedd a hanner wedi ei ddyfodiad i ddyffryn creigiog y Steinthal, yr oedd ei holl gynlluniau wedi eu dwyn i ben, a thrafnidiaeth wedi ei sefydlu â Strasburg.

Cynllun mawr arall ag oedd yn ymgodi o flaen llygad ei feddwl oedd gwella cyflwr ffermwriaeth yn y dyffryn, ceisio gwneyd y goreu o'r tir canolig, fel y gallasai y bobl, ar ol eu holl lafur, gael rhywbeth i'w

gymmeryd i'r farchnad. Yn hyn drachefn gwelodd Oberlin fod anwybodaeth y bobl yn milwrio yn erbyn ei gynlluniau. Glynent yn afaelgar wrth yr hen ddulliau ag oeddynt yn arferedig yn mhlith eu cyndeidiau, a chodent eu trwynau at y meddylddrych y gallasai gweinidog, wedi ei fagu mewn tref, wybod dim byd am y mater.

Ni cheisiodd Oberlin, fodd bynag, wasgu ei opiniynau ar wrandawyr oeddynt yn annerbynol o honynt, ond penderfynodd weithio ei hun i gario ei feddylddrychau allan, a rhoddi i'r bobl y cyfleusdra i farnu drostynt eu hunain.

Perthynai i dŷ y gweinidog ddau lecyn o dir, ond fod yna lwybr troed yn arwain rhwng y ddau. Ar y darnau hyn y dechreuodd Oberlin wneyd perllan, a thrwy ddarllen llyfrau ar y pwnc a thrwy ymgynghori ag awdurdodau da o barthed i'r ffordd oreu i achlesu a thrin coed, llwyddodd i wneyd y defnydd goreu possibl o'r tir.

Ar y cyntaf, pan elai trigolion y pentref heibio, chwarddent am ben y syniad o fod gweinidog yn troi yn arddwr; ond fel y dirwynai amser yn y blaen, a'r canlyniadau daionus yn dyfod i'r golwg, gwnaent edrych ar y lle gyda dyddordeb, a gofynent gwestiwn neu ddau.

Dyna yn union oedd Oberlin yn ddymuno. Atebai eu gofyniadau, a dangosai iddynt bobpeth oeddynt yn awyddus i w wybod, a diweddai, fynychaf, trwy gynnyg iddynt hedyn neu impyn fel y gallent ei grafftio, a byddent bob amser yn ei dderbyn yn ddiolchgar iawn. Yn y ffordd dawel, ddidwrw, hon, trwy weithio a thrwy aros, y cyrhaeddodd Oberlin ei ail amcan. Trodd ei gynllun allan yn hynod o lwyddiannus: daeth planu a grafftio coed yn orchwylion hoffus yr holl drigolion, a thrwy y cyfrwng hwn, daeth gwyneb y wlad, yn mhen ychydig flynyddau, yn newydd hollol. Yr oedd perllanoedd prydferth o goed ffrwythau, a chnydiau toreithiog o yd a llysiau, yn tyfu mewn lleoedd ag oeddynt ychydig amser yn ol yn fryniau diffrwyth neu dympathau creigiog.

Symmudwyd pob ofn newyn ag oedd wedi bod yn ymwelydd aml, ac yn fflangell ar y dalaeth, a medai y bobl wobr eu diwydrwydd mewn mwy o gysur a digonedd.

Yn ei holl fywyd a'i waith beunyddiol llywodraethid ef gan egwyddorion crefyddol cryfion. Nid ystyriai ddim, o hau hedyn hyd at adeiladu pont, yn gyffredin ac yn ddibwys. Yn ei bregethau, hefyd, dylynai ei Athraw Mawr, a gwnai ddefnydd helaeth o ddammegion wedi eu tynu o ddygwyddiadau cyffredin bywyd beunyddiol. Os mynai dyn fod yn Gristion, rhaid iddo fyw bywyd defnyddiol i ddyn: o ganlyniad, gwnaeth hi yn rheol na wnai gonffirmio neb—mab na merch, os na allent ddwyn iddo dystysgrif eu bod wedi *planu dwy goeden.*

Y trydydd gwaith mawr y rhaid i ni son am dano oedd ei lafur mewn cyssylltiad â'r ysgolion. Carwn roddi i chwi ddesgrifiad helaeth o'i lafur godidog yn y cyfeiriad hwn, ond nid yw gofod nac amser yn caniatau. Ni wnaf ond prin cyfeirio ato. Yr oedd yr holl ysgolion dan ei ofal, ac elai rhan fawr o'i gyflog fechan o ddeugain punt yn y flwyddyn i adgyweirio yr adeiladau, ac i brynu yr hyn oedd yn angenrheidiol i gario yn mlaen waith yr ysgol. Efe oedd y cyntaf i fabwysiadu y

cynllun o ysgolion i fabanod *(Infants Schools,)* oblegyd canfyddai pan anfonid llanciau i'r ysgolion pan oeddynt wedi tyfu ychydig, fod gormod o amser yn myned er eu dwyn dan ddysgyblaeth briodol.

Rhaid i mi ddwyn ty stori i ben. Carwn ddweyd wrthych am y modd y darfu iddo wellhau anned lau y bobl, sut y dygodd i fewn i'r ardal grefftau defnyddiol, sut y sefydlodd lyfrgelloedd, ac yr argraffodd lyfrau i ddyfyru ac i addysgu y bobl, a sut y gwnaeth filoedd o bethau ereill a barasant "i'r anialwch a'r annghyfanneddle lawenychu, ac i'r diffaethwch hefyd orfoleddu, ac i flodeuo fel y rhosyn."

Yn ei holl waith cynnorthwyid ef yn ardderchog gan ei wraig ffyddlon, a bu ei marwolaeth, ar ol un flynedd ar bymtheg o fywyd priodasol hapus, yn golled ac yn ergyd chwerw iddo. Dygwyd hi oddiarno pan oedd fwyaf ei heisieu ar y teulu oedd heb ei fagu. Yn nghanol ei ddyddiau blin, cafodd lawer iawn o gysur yn ei waith, yr hwn a garai, a chan lafurio yn mysg ei bobl, yn cyfranogi o'u galar a'u llawenydd, bu fyw hyd ei 85 mlynedd yn anwyl gan ei holl braidd. Bu farw o farwolaeth yr uniawn, ac wylid ei golled gan holl Ewrop.

Dyna bortread anmherffaith o fywyd a gwaith Oberlin. Carwn fod wedi gwneyd mwy o gyfiawnder â hwy, ond gobeithiaf y bydd i'r hyn a ysgrifenais eich helpu i gadw ei enw yn eich meddyliau, ac i enyn cariad tuag ato yn eich calonau. W. J. P.

PRIODASGERDD

I Mr. John Thomas, Clettwr Villa, a Miss Elizabeth Jane Evans, Frondoleu, Ceinewydd.

Mae swynion saethau Cupid yn denu pob dyn call
I ddod at allor Hymen bob dydd ar ol y llall;
Fel hyn yr oedd yn Nghanaan pan drowd y dw'r yn win;
Erioed fe deimlwyd gwedd'-dod yn hynod iawn o flin.

Mae Ioan mwyn o'r Villa yn gadael gwedd'-dod ffol,
I chwilio am gymhares fo'n gynhes yn ei gol;
Mae deddf yn argraffedig ar galon pob rhyw ddyn,
Sef, "Ffrwythwch, lluosogwch—mae dau yn well nag un."

Rhyw ieuad da 'rwy'n erfyn i'r pâr siriolaf hyn,
A mwyniant byd a'i degwch wrth deithio'r hyd y glyn;
Bu Ioan yn bur ffodus wrth ddewis lili lon;
Eirianach merch ni chaffai pe chwilia'r byd o'r bron.

Boed iddynt fywyd araul am hir flynyddau maith,
A rhan o bob dedwyddwch i'w tywys ar eu taith;
A chaniataer i'r awen i roddi tonc i'r tant,
Trwy ddeisyf iddynt etto ryw hyn a-hyn o blant.

Pennant, Rhydowen. S.T.

CHINA: EI PHOBL, EI PHROFFWYD, A'I CHREFYDD.

Dichon i'r ffaith fod y rhyfel presennol rhwng China a Japan yn derbyn cymmaint o sylw yn y newyddiaduron yn ddigon o esgusawd dros gael erthygl fechan ar y pwnc uchod. Y mae China yn Ymherodraeth hen, ac yn Ymherodraeth eang. Cyfrifir ei harwynebedd *(area)* yn bum' miliwn o filldiroedd sewar, neu ryw gymmaint arall ag yw arwynebedd Unol Dalaethau America; a'i phoblogaeth yn bum' can' mil o filiynau, neu ryw ychydig yn rhagor nag un rhan o dair o holl boblogaeth y byd. Yn yr hyn a elwir yn briodol yn China, ac a breswylir gan y Chineaid, y mae deunaw o dalaethau, yn cynnwys 360 miliwn o drigolion, tra mae'r arwynebedd yn hanner cymmaint ag Ewrop. Tebyg mai China yw yr Ymherodraeth henaf yn y byd—yr henaf o lawer iawn. Bu Herodotus, hanesydd hynaf Groeg, yn yr Aifft tua 450 cyn y cyfnod Cristionogol, a gwelodd yno hynafiaethau —temlau a cholofnau oeddynt yn hen, bron hwnt i ddychymyg yn ei amser ef; ac etto y peth tebyg yw, fod adeiladwyr y rhai hyny yn byw mewn amser llawer diweddarach na'r breninoedd a osodasant i lawr sylfaen Ymherodraeth China. Yn hen feddrodau yr Aifft yr ydys wedi cael darnau o lestri *porcelain* ag arwyddeiriau Chineaeg arnynt, ac mewn ffurf, defnydd, ac ymddangosiad, yr un ffunud a'r rhai wneir yn China heddyw; a thybia Rosselini eu bod wedi eu trosglwyddo i'r Aifft gan freninoedd oeddynt yn byw tuag amser Moses. Y mae'r Ymherodraeth hon wedi goroesi pobpeth. Dechreua hanes awdurdodol *(authentic)* China 2,000 o flynyddoedd cyn Crist. Y mae iaith China wedi parhau yr un am ddeg canrif ar hugain. Mae y *Wal Fawr* sydd yn ffurfio ffin yr Ymherodraeth yn y Gogledd yn 1,240 o filldiroedd o hyd, ac yn 20 troedfedd o uchder, gyda thyrau uchel ar ben pob ychydig gannoedd o latheni. Rhed y wal i fyny dros fynyddau uchel, ac i lawr i ddyffrynoedd dyfnion, a thros afonydd llydain. Adeiladwyd hi tua 2,000 o flynyddoedd cyn Crist, wrth bob tebyg i gadw yn ol y llwythau o farbariaid ffyrnig a geisiasent yn aneffeithiol i orchfygu China, ac a wasgasant i'r gorllewin, gan gyrhaedd Ewrop 500 mlynedd yn ddiweddarach, a chyfranu'n rhanol, dan yr enw Hunniaid, i ddwyn dinystr yr Ymherodraeth Rufeinig oddiamgylch. Nid oes yn y byd heddyw ddim a ddeil ei gymharu, o ran maint, â'r *Canal Mawr* yn China; y nesaf, o bossibl, yw yr Erie Canal yn America, ac nid yw hwnw ond rhyw hanner cymmaint. Un o ddyfeisiau pwysicaf peirianwaith diweddar Ewrop yw y *Ffynnonau Artesiaidd*. Ystyrir dyfnder o 2,000 o droedfeddi yn hynod gyda ni, er fod rhai yn rhedeg i 4,000; ond ceir ffynnonau cyffelyb yn China er cyn cof hanesiol wrth y degau o filoedd, tra'r ydys yn ddiweddar wedi arfer cynllun China yn ein gwlad ni, fel un mwy syml ac effeithiol a rhad na'r un mewn arferiad o'r blaen. Dyben y ffynnonau hyn yn China oedd i gael dwfr hallt. Darganfuwyd cylchrediad y gwaed gan y Chineaid yn hir cyn geni y Dr. Harvey, ac yr oedd buchfrechiad

mewn arferiad yn eu plith mor foreu a'r flwyddyn 900 oed Crist; tua'r un adeg dyfeisiwyd argraffu ganddynt.

Gwahaniaetha'r Chinead yn fawr oddiwrth y Prydeiniwr. Yr ydym draed yn nhraed â hwy bron yn ein holl arferion. Gwisga'r gwrywod gyda hwy yn debyg iawn i'r menywod gyda ni. Mae hyd y nod milwyr yn gwisgo peisiau wedi eu cwilto, potasau satin, gwddfledau (*necklaces*). Cariant bob un ei ymbarelo a'i ffon, ac ânt i'r ymgyrch y nos gyda llusernau yn eu dwylo, fel pe byddent yn ofni'r nos yn fwy nag yr ofnant y gelyn. Gyra'r foneddiges allan mewn berfa drol, a cheir y fuwch yn y *carriage*. Gyda ni gosodir y traed yn y *stocks*, yn China gosodir y *stocks* am y gwddf. Pan yn gosod ty i fyny, awydd y sawl allo yn ein gwlad ni yw cael *piano*, awydd y Chineaid yw cael coffin o bren camphor, yr hwn a gedwir yn y man goreu yn y ty. Prif ystafell y boneddwr yn China yw "neuadd yr hynafiaid," darluniau yn grogedig ar y muriau, i'r rhai y telir math o addoliad; gyda ni, o'r tu arall, yn gyffredin, gyrir darlun yr hendaid i'r garet.

Ymddengys y Chinead fel pe byddai yn byw yn gwbl yn y gorphenol. Gesyd y pwys mwyaf ar addysg; ond addysg hen lyfrau hen oesoedd ei genedl ydyw prif, os nad unig bwnc ei fyfyrdodau. Llenyddiaeth ydyw y pwnc mawr, ond hen lenyddiaeth, a gorfodir pob ymgeisydd am swydd i basio arholiad yn y cyfryw. Dosparthir pob cangen o lywodraeth i ryw hanner dwsin o fyrddau, ac y mae cynghorwyr y byrddau gyda'u swyddogion is yn rhifo tua 1,200. Gwybodaeth felly yw y llwybr i ddylanwad a chyfoeth. Ac ar y cyfan, mae'r sefydliadau hyn wedi gweithio yn dda. Mae'r peirianwaith yn syml, ond cyfrana'n helaeth at sefyllfa o ddedwyddwch ac o rinwedd teuluol. Bychain yw'r ffermydd—erw neu ddwy—a chwyd pob teulu ar ei fferm bobpeth sydd yn angen arno. Mae y celfau cain wedi eu cario ganddynt i raddau pell o berffeithrwydd.

Yr athraw mawr mae y Chineaid wedi edrych i fyny ato am dair canrif ar hugain yw Confucius (neu Cong-ffw-tsi). Ganwyd ef tua 551 cyn Crist, tuag adeg dychweliad yr Iuddewon o Fabilon. Rhifa ei ddisgynyddion, erbyn heddyw, rhyw 40 mil yn China yn unig, ac y maent mewn parch mawr. Ei deulu ef, efallai, yw yr hynaf yn y byd, os na chawn ni edrych ar yr Iuddewon fel un teulu yn disgyn o Abraham. Yn ddiamheu yr oedd Confucius yn ddyn ardderchog, o dalentau dysglaer, ac o foesoldeb pur. O ddim, dim a ddaw, a byddai yn *insult* ar ein natur ddynol i dybied y gallai neb ond dyn o'r fath oreu sicrhau y fath ddylanwad eang a pharhaus, a hwnw yn ddylanwad da.

Gan nad wyf yn bwriadu erthygl hir, brysiaf i osod ychydig o'i hanes a'i reolau gerbron. Adroddir llawer am ei garitor, am ei wroldeb mewn perygl, ei ostyngeiddrwydd mewn sefyllfa uchel. Mae ei fywyd a'i ysgrifeniadau wedi rhoddi deddf a chyfeiriad i feddwl y Chinead am fwy na 2,000 o flynyddau. Efe yw nawddsant yr Ymherodraeth. Cyhoeddir ei lyfrau bob blwyddyn, a dosparthir hwy yn rhad. Mae rhif y temlau i'w goffadwriaeth yn 1,660, ac un o honynt yn cuddio deg erw o dir. Ar ei wyl, yr hon a gynnelir ddwywaith yn

y flwyddyn, aberthir 70,000 o greaduriaid, a llosgir 27,000 o ddarnau o sidan; ac etto, cynnelir ei grefydd heb offeiriad, heb weddi, heb addoliad cyhoeddus, oddieithr ar y ddwy wyl grybwylledig.

Dyma dipyn o'i athroniaeth, cneuen i'w thori i athronwyr ieuainc Yr Ymofynydd: "Mae creadigaeth yn gynnydd parhaus. Mater ac yspryd, ffrwythau gwrthwynebol neu wrthgyferbyniol yr un gallu ydynt. Tuedda y naill at amrywiaeth, y llall unrhywiaeth; amrywiaeth mewn unrhywiaeth yw deddf barhaus a chyffredinol bodolaeth. Mae y dyn yn gynnyrch dadblygiad y gweithrediad a'r goddefiad yma; a natur dyn fel cynnyrch uwchaf, mae yn berffaith dda, ac yn gynnwysedig o bump elfen—cariad, cyfiawnder, cyfaddasrwydd, doethineb, diffuantrwydd neu gywirdeb. Y rhai hyn a wnant i fyny natur fewnol a sylweddol dyn; ond trwy fod dyn yn dyfod i gyffyrddiad â'r byd allanol, daw drwg i ganlyn. Pan y mae dyn yn dylyn gofynion ei natur, mae ei weithredoedd yn dda, a chydgordiad yn canlyn. Pan y dylanwadir arno yn ormodol gan y byd allanol, mae ei weithredoedd yn ddrwg, ac annghydgordiad yn cymmeryd lle. Mae holl feddyliau y dyn da yn berffaith ddoeth, ei weithredoedd yn berffaith dda, a'i eiriau yn berffaith wir."

Trwythir holl athroniaeth Confucius yn hollol â'r egwyddorion hyn: (1) fod esiampl yn holl allnog; (2) fod yn rhaid sicrhau dedwyddwch y bobl er cael dyogelwch yr Ymherodraeth; (3) y gellir trwy ein meddyliad parhaus yn yr un cyfeiriad, yn y diwedd, dreiddio i wybodaeth o sylwedd pethau; (4) mai amcan pob llywodraeth ddylai fod i wneuthur y deiliaid yn rhinweddol a dedwydd.

Deallir ei ymroddiad i addysg oddiwrth ei eiriau hyn: Yn 15, yr oeddwn yn awyddus am wybodaeth; yn 30, yr oedd fy meddwl wedi ei sefydlogi yn yr ymgais am wybodaeth; yn 50, deallwn y rheol roddedig o'r nefoedd; yn 70, nid oedd dymuniadau fy nghalon mwy yn troseddu'r ddeddf.

Os yn y boreu y clywaf am yr iawn lwybr, ac os yn yr hwyr y byddaf farw, gallaf fod yn ddedwydd.

Dyn oedd efe (Confucius), yr hwn, trwy ei ymroddiad difrifol am wybodaeth, a annghofiai ei fwyd; ac yn ei lawenydd wedi ei gael, a gollai bob teimlad o ludded, a chyda'i fyfyrdodau felly oedd yn anymwybodol ei fod wedi cyrhaedd henaint.

Reis garw yn lle bwyd, dwfr i'w yfed, a braich blygedig yn obenydd—gall dyn fod yn ddedwydd ar hyn yn unig; ond heb rinwedd nid yw cyfoeth ac anrhydedd ond megys y cwmmwl a chwythir gan y gwynt ymaith.

Sylwedd gwybodaeth yw, wedi ei gael, ei gario allan i ymarferiad; heb ei gael, addef anwybodaeth.

Addoler fel pe byddai Duw yn bresennol.

Os nad yw fy meddwl ar waith pan yn addoli, nid yw yn ddim amgen na pheidio addoli.

Gynt, wrth glywed dynion, gwrandawn ar eu geiriau, gan gymmeryd yn ganiataol am eu hymddygiad; yn awr, yr wyf yn gwrando eu geiriau ac yn gwylio eu hymddygiad.

Llawer a gyrchant i weithredu yn ddall ac heb wybodaeth; yr wyf fi yn gwrando llawer ac yn ceisio dewis y llwybr goreu.

Dyn gostyngedig oedd Confucius. Dywedodd: Nis gallaf oddef clywed dynion yn dywedyd fy mod gystal a dynion doeth a da yr hen oesoedd. Yr oll a ellir ei ddywedyd yn wir am danaf yw, fy mod yn hoffi myfyrio ar ymddygiad y doethion, ac yn hoffi addysgu dynion yn ddiflino am danynt.

Y dyn da, mae bob amser yndawel a dedwydd; y dyn drwg bob amser mewn ofn.

Ffyddlondeb ac uniondeb yw y pethau uwchaf.

Yr wyf yn holi fy hunan yn ddyddiol mewn tair ffordd; yn fy nhrafodaeth ag ereill, a ydwyf yn uniawn; yn fy nghyfeillach â'm cyfeillion, a ydwyf yn ffyddlawn; ac a ydwyf yn cario allan addysg fy athraw yn fy ymddygiad.

Yr oedd Lao-tse yn un o gyfoedion Confucius am 28 mlynedd, ac yn sylfaenydd un o'r tair ffurf o grefydd a geir yn China. Dysgai fod rhinwedd yn sicr o'i gobrwy; ac fod pobpeth wedi ei drefnu wrth ddeddf sefydlog. Talodd Confucius ymweliad ag ef unwaith, ond cyffesodd nad oedd yn ei ddeall. Meddai: "Gwn sut mae adar yn hedfan, sut mae pysgod yn nofio, ac anifeiliaid yn rhedeg. Gellir saethu'r aderyn, bachu'r pysgodyn, a rhwydo'r anifail. Ond dacw'r ddraig. Nis gwn sut yr esgyna i'r awyr ac yr aiff i'r nefoedd. Heddyw yr wyf wedi gweled y ddraig."

Wedi treulio pum' mlynedd yn China (1842—7), dywed Lieutenant Forkes: "Cefais fy hun yn mhlith pobl mor fwyn, mor garedig a chymmwynasgar, ag un pobl ar wyneb y ddaear; a chymmaint o'n blaen ni yn rhai pethau ag ydynt ar ein hol mewn pethau ereill."

T.C.U.

UFFERN.

(Atebiad i ofyniad ymddangosodd yn yr Ymofynydd, *Tachwedd*, 1894.

Och! i'r anwn ddychrynol—a'i chredwyr
Erchrydus a ffugiol;
Gwres rhyw ffwrnes uffernol
Yn eu ffydd am ddrygau ffol.

Tybed, bydd Duw'n atebol—am adwyth
Rhwymedig a damniol;
A phoeni'n anorphenol
Drwy loes ein heinioes sy'n ol.

Duw rydd gerydd hawddgarol
Heb yru tân o'r tu ol;
Efe a roes heb loes i'w blant
Ei addawol faddeuant;

Ni hidia Duw hwdio dyn
Yn ddiffrwyth i'r fath ddyffryn;
Ystori am y fflamiau
A'r hylosg fyd sy 'gyd yn gau;
Hynod o wan yw'r "dafn dw'r"
Uwch odyn y sychedwr;
Bywyd lwys, cydwybod lân,—fo'n hymarweddiad
I ail uniad y nefol anian.

Tylorstown. WM. EDWARDS *(Peiriannydd).*

RHES O DDIAREBION LLEOL.

(Darllenwyd o flaen Cymmrodorion Merthyr, gan Gwernyfed.)

GORCHWYL anhawdd ydyw cyfansoddi llith ddyddorol ar destyn mor eang-amrywiog a chwmpasog â diarebion lleol. Efallai fod geiriad fy nhestyn yn rhy gyfyng, o herwydd y gair, "lleol," ac y gellid meddwl wrth hyny fod y diarebion hyn yn perthyn yn unig i'r dref hon a'r cylchoedd; eithr nid felly yn hollol. Nid wyf yn bwriadu rhoddi deffiniad o beth yw diareb, nac ychwaith pa beth sydd yn gwneuthur diareb yn ddiareb ynddi ei hun, ond yn unig roddi ger eich bron gasgliad o ymadroddion byrion, synwyrlawn, a chyrhaeddbell, a glywir yn ymddyddanion teuluaidd a phersonol trigolion Merthyr a'r cylchoedd. Y maent fel meini caboledig yn harddu adeiladaeth froddegol y lluaws, ac fel gair yn ei bryd, yn tymheru yr ymadroddion i bwrpas pennodol, heb orddefnyddiad o eiriau llanw, nes "gyru yr hoel i dre'."

"Llunier i gall hanner gair
Lle daw annghall a dengair."

"Llygaid a ddywaid i ddoeth—
Synwyr,—lle ni chais annoeth."

Wrth ymdrafod â'r diarebion lleol, nid wyf yn bwriadu dyfynu, nac am wneyd defnydd o'r gyfres adnabyddus a gyfenwir y "Diarebion Cymreig," neu "weddillion doethineb yr hen Gymry," fel y geilw yr hen Ddoctor Davies, o Fallwyd, hwynt; oblegyd y mae y cyfryw yn gasgliad ar eu penau eu hunain, a byddai dyfynu o'r casgliad hwnw yn tori ar draws pennawd fy nhestyn, ac yn fradychiad anesgusodol o'r hyn sydd genyf mewn llaw, ac yn gamarweiniol i chwithau.

Y mae y diarebion Cymreig wedi bod yn destyn astudiaeth er yn foreu iawn. Y cyntaf sydd genym a hanes am dano a fu yn mlaen-llaw yn hyn o orchwyl oedd Cattwg Ddoeth, rhwng y pummed a'r chweched canrif—Abad cyntaf Llancarfan yn Morganwg, ac y mae y casgliad a wnaeth yn ein meddiant, ac y maent yn fras gan wir

athrylith, ac yn fyw o'r hyn sy'n nodweddu ymadroddion y doeth a'r deallus (*Myv. Arch. Vol. III.*). *Em. Welshmen. Art, Cattwg.*

Oddeutu yr unfed canrif ar ddeg, cawn i'r hen Gyrus o Iâl, yn Ngwynedd, wneyd casgliad o "ddiarebion a doeth-ddywediadau y Cymry," ac a chwanegodd lawer o'i eiddo ei hun atynt, a gelwir ei gasgliad yn "Madwaith hen Gyrus o Iâl," neu "Bach Buddygre," a "Gwynfarch Gyfarwydd," yr hwn waith a gyfysgrifiwyd gan Gruffudd Hiraethog yn y flwyddyn 1500. Sypyn Cyfeiliog, oddeutu dechreu yr unfed canrif ar bymtheg, a wnaeth chwanegiadau helaeth at waith yr hynafiaid. Dr. John Davies, o Fallwyd, oddeutu 1600, a wnaeth gasgliad helaethach, ac a argraffwyd ar ddiwedd ei eiriadur yn 1632. W. Maurice, Ysw., Llansilin, Dinbych, yr hwn oedd gasglydd hynafiaethau diail yn ei oes, a wnaeth gasgliad o honynt yn 1875; ac yn mhen can' mlynedd wedi hyny, sef yn 1775, bu yr enwog E. Evans (Ieuan Brydydd Hir) yn en casglu ac yn copio; ac yn ddiweddaf oll, argraffwyd hwy dan arolygiaeth Owain Myfyr, Iolo Morganwg, a'r Dr. Owain Pughe, yn y *Myvyrian Archæology*; a dywed y Dr. W. O. Pughe fod eu rhif uwchlaw 12,000, eithr ambeuir hyn yn fawr. Dyma'r casgliad gwarantedig sydd genym ni o'r hyn a elwir yn "Ddiarebion Cymreig." Cafwyd argraffiad o'r gyfres hon, gydag ychydig o ychwanegiad, gan berchen *Y Gwyddoniadur*, ac fel ymaent i'w cael yno heddyw yr ystyrir hwy y casgliad cywiraf ac helaethaf o ddiarebion a doethineb yr hen Gymry. Yn 1858 ennillodd merch yr hynafiaethydd enwog, Ab Ithel, wobr o ddeg gini, yn Eisteddfod Fawr Llangollen, am y casgliad goreu o ddiarebion annghyhoeddedig, ac yr oedd ei chyfres hi o'r cyfryw yn rhifo 5,365. A welodd y casgliad eang hwn oleuni dydd ai peidio, nis gwn, eithr hyn a brawf nad yw y casgliad o ddiarebion Cymreig wedi ei wneyd yn gyflawn a chyfan hyd yn hyn, ac fod llawer diareb ddoeth wedi cael byw a bod ar lafar gwlad heb erioed fod mewn argraff, ac ond odid nad oes llawer diareb henafol wedi ymgolli mewn difodiant oddiar dafodau y werin, ac na chlywir hi byth mwy. Ac y mae genyf fy hun, fel un anhymig, oddeutu mil o ymadroddion diarebol, y rhai nid ydynt yn y casgliadau argraffedig a enwais; etto, y maent yn eiddo cyffredin y genedl, ac yn fyw yn nhafodiaith y werin, ac yn britho eu hymadroddion nes y gallwn yn briodol eu galw yn "llafar gwlad."

Mae broddegiaeth gyffredin y werin Gymreig yn dryfrith o ymadroddion diarebol, yn twy felly, meddir, nag un genedl arall oddigerth yr Yspaeniaid a'r Gwyddelod. Dywedir y gellid adnabod teithi ac anianawd feddyliol pob cenedl wrth eu diarebion; os gwir hyn, ni raid i'r Cymry ofni i'w diarebion gael eu cymharu ag eiddo cenedloedd ereill parth craffder, miniogrwydd, ac arabedd.

Yn y fan hon priodol yw dweyd ddarfod i un James Howell, yn y flwyddyn 1659, gyhoeddi cyfieithad o'r diarebion Cymreig yn ol casgliad y Dr. Davies, yr hyn a brawf yr achos, i raddau pell, o gydagosrwydd syniad ac ystyr ugeiniau, os nad cannoedd o ddiarebion, y Saeson a'r eiddo y Cymry; ac nid allan o le fyddai rhoddi ychydig nifer o honynt yn enghreifftiau:—

1. A bargain is a bargain—Bargen yw bargen, serch colled.
2. Count not your chickens before they are hatched—Peidiwch cyfri' cywion cyn eu gori.
3. Give the devil his due—Chwareu teg i'r diafol.
4. Make not the devil blacker than he is—Trueni gwneyd cam â'r diafol; Peidiwch dodi'r diafol yn waeth nag yw. Dyna ddau gyflead da.
5. Ever drunk, ever dry—Ar ol yfed syched sy.
6. Rub your sore eye with your elbow—Cosi llygad â phenelin.
7. An Englishman's house is his castle—Castell pob Cymro yw ei dy.
8. Enough is as good as a feast—Digon cystal â gwledd fedel.
9. There's never enough where nothing's left—Nid digon a'r nas gweddillir; Nid digon heb weddill; Nid digon heb warged. Dyna dri chyflead hollol gyfystyr.
10. Every man for himself, and God for us all—Pob un drosto ei hun, a Duw drosom i gyd.
11. As good as Guinea gold; As good as gold—Cystal ag aur.
12. The liar is sooner caught than the cripple—Haws dala'r celwyddog nâ'r cloff; Un cloff yw celwydd.

Hynyna i ddangos y gydsyniadaeth a red mor amlwg yn niarebion y ddwy genedl. Bellach, rhag ofn i'r 'Porth fod yn fwy nâ'r eglwys,' dechreuwn ar ein testyn.

1 'Wele hai, ynte, ati o ddifri',' a 'Thynu'r goes ola'n mlaena',' yn lle rhyw 'Bilo wyau' fel hyn o hyd. 'Bid cam, bid cymhwys,' ynte, a 'Goreu 'gyd po gynta',' a'r 'Cam cynta' yw'r cam goreu,'
5 a hyny 'Rywffordd neu gilydd,' waith 'Y cyntaf i'r felin sydd i falu,' yn lle 'Gyru'r ffol yn mhellach,' i fod 'Mor hurt â chi mewn
10 ffair,' neu, ynte, i fod 'Mor wamal â cheiliog gwynt,' ac 'Yn troi fel y gwynt,' ac 'Mor anwadal â'r awel,' a llawn 'Mor anwadal â dryw mewn perth,' neu fel rhyw 'Sant penffordd a diawl pen pentan,' yn edrych 'Mor ddifrifol â phe'n dweyd ei bader,' a hyny
15 'Mor sobor â phe uwch bedd ei famgu,' a'r un pryd 'Yn ceisio hala rhwng y ci a'i gynffon.' Trueni hyny hefyd, waeth ''Does gan y ci ond ei gwt,' druan o hono, i roesawi ei gymmwynaswr, a ''Does gan gi ond ei groen' ar dywydd oer. Mae ambell un mor ffol yn ei genedlaeth â "Phrynu cath mewn cwd,' a phan wel ei
20 gamsyniad, mae'n 'Edrych mor sarug â chi ar dewyn o dân,' neu 'Mor llon â llyffan' ar yr haul,' neu fel y lodes hono oedd 'Yn llefain llawenydd y llynedd,' yn 'Gwerthu mêl i brynu peth melus,'
25 ond 'Os nad yw'r cap yn ffito, peidiwch â'i wisgo. 'Mae'n dda nad oes cyrn ar dda moelion,' onite, 'Gwae fi a gwae finau' fuasai o hyd. 'Pytai a phytysai, byddai pobpeth o'r goreu;' er hyny, 'Fe fyn cenfigen ei gwobr,' a 'Theg i bawb eu haeddiant,' ond
30 trueni gyru dyn tlawd 'O bared i bost,' i 'Chwilio am ei grâf,' ac i 'Fyw ar ei wair a'i wellt ei hun.' Ffol yw'r dyn a 'Boero ar ei bilyn ei hun,' ond ffolach o lawer yw'r sawl 'Doro'i drwyn i ddial ei dalcen.'

(I'w barhau.)

NODYNAU GWASGAROG.

DARLUN DOCTOR LLOYD.

Darn o lythyr, gydag englynion, oddiwrth y Parch. J. Lloyd James, March, Camb.

"Tach. 16, 1894.—Y mae yn bryd i mi gydnabod eich caredigrwydd yn anfon i mi Yr Ymofynydd am Tachwedd. Y mae ynddo amryw bethau dyddorol i mi. Darlun ein hen athraw, Dr. Lloyd, mae yn dda genyf ei gael, i'w gadw er cof am yr amser gynt, a chedwir ef yn gyssegredig: a dyna ei gofiant gyda hyny, yn ychwanegu gwerth y darlun. Mae yn wir dda; ac yn fwy gwerthfawr fyth yn fy ngolwg I, am mai fy hen gyfaill, a'm cydysgolor R.J.J. a'i hysgrifenodd. Dyna wedi hyny ran o bregeth Gwilym Marles—gwell hanner torth nâ dim. Mae genyf fi amryw adgofion am Gwilym, a chlywais ef yn pregethu. Un waith gelwais yn ei dy yn Llandyssul, ar fy ffordd i bregethu i Horeb; a daeth gyda mi i'r oedfa. Dyna "Salm Bywyd," darn hoff i mi. Mae y cyfieithad yn gynnyg da iawn, eithr "Nid da lle gellir gwell." Gydag ychydig gymhwyso gellid ei wella. Dichon y digiai E. Ceredig Jones wrthyf am hyn, eithr nid yw yn debyg y cwrddwn yr ochr hyn; ond hawddach gweled beiau nâ'u diwygio—onide? "Hunan-ddiwylliant," gan J. Jones, Llangollen. Adwaenwn a chlywais ef, os yr un yw ag arwr Bedydd. Da. Fe bregethodd Williams o'r Wern ar Dduwdod Crist yn nghymmanfaoedd y Deheu. Gallwn ddweyd yn mha le, ond troi i'm llyfr "Hanes y Cymmanfaoedd." Nid wyf yn cymmeradwyo ffordd J. Evans yn ei englyn "Gofyniad." Mae y llinell olaf yn diweddu mewn math o *sneer*, yn lle fel gofyniad. Ni wnaeth Duw ddim "heb ddyben da." Pa un a oes "ffwrn" ai peidio, dywed y Beibl fod "ffwrn"—pwnc arall yw, beth olyga. Dyma englynion brysiog i Dr. Lloyd; dichon na ddaliant hwythau feirniadaeth lem. Cofion lawer, a diolch gwresog am fy nghofio."

Ein D. Lloyd hoff, dyledus—oedd o lun
Gan haeddawl law fedrus;
Addysgai, huliai'n hwylus
Moeth o werth, nid maeth o us.

Dyna'i wedd, rhwydd adwaenir,—a'i lygad,
Golygus wr gofir;
O fryd hael,* a difrad, wir—
A geiriau hwn wir gerir.

---

* Cymmwynaswr oedd i fyfyrwyr, ac ni ymhyrai â'u golygiadau crefyddol, er y dywedai am iddynt fod â rheswm ganddynt dros bob golygiad.

Da athraw, nid dyeithryn,—heb galon,
Bugeiliwr di golyn ;
Di gel oedd ei sel a syn—
I anhylaw† yn elyn.

I'R COLEG.

Os caled profais y coleg,—heddyw
Awyddwn gael 'chwaneg ;
Adwaen I fwy bob adeg
Werth y dorth—ddysg ddiwarth deg.

CLWYDWENFRO.

DARLUN Y PARCH. J. E. JONES.

Mae darlun Mr. Jones yn adgofio i mi stori. Yr oeddwn ar y ffordd o Aberdar i Ferthyr i ymweled â fy nghyfaill, y Parch. N. R. Williams, ac yn agos i Abernant dyma ddyn ar geffyl yn fy nala. Wedi cydgyfarch yn gyfeillgar, parhawyd yr ymddyddan nes bron cyrhaedd pen y mynydd, pan y dywedodd y cyfaill ei fod wedi dyfod ar ei geffyl bob cam o Benbont ar Ogwr. Dywedais inau ei fod wedi teithio ffordd bell, nad oeddwn I'n gwybod nemawr am Benbont, nad oeddwn erioed wedi bod yno, ond fy mod yn adwaen un boneddwr yno. Gofynodd y cyfaill pwy oedd hwnw. Atebais inau mai Mr. Jones, gweinidog yr Undodiaid, oedd. Gosododd y cyfaill y whip ar waith a rhoddodd yr awgrym arferol i'r ceffyl, gan fy ngadael inau yn mhell ar ol, ac i synfyfyrio ar ddallineb rhai dynion a'u rhagfarn ddall yn erbyn yr Undodiaid.

J. J. G.

Manion ac Hanesion.

LLYFR TONAU AC EMYNAU. — Deallwn fod Mr. Eiddil Jones, ac un neu ddau arall, wedi cychwyn mudiad i gael Llyfr Tonau ac Emynau newydd. Mae Mr. Jones wedi cytuno â'r Meistri Hughes a'i Fab am y tonau a gymmerir o'r llyfrau a gyhoeddir ganddynt.

TREBANOS. — Cynnaliwyd y cyfarfod cyntaf o gyfres fwriedir gynnal yn ystod y Gauaf hwn yn y lle uchod nos Sadwrn, Tachwedd 3. Cadeiriwyd yn fedrus gan Mr. James Evans. Aeth pawb drwy eu gwaith yn ganmoladwy. Cafwyd cynnulliad lluosog, ac elw da, yn nghyd a dysgwyliad mawr am adeg cynnaliad gwledd o'r fath etto.

IDRIS.

CYMRU A JAPAN.—Mewn rhifyn diweddar o'r YMOFYNYDD, rhoddwyd copi o longyfarchiad a ddanfonwyd i Japan. Y mae adroddiad cyflawn o weithrediadau dydd agoriad yr adeilad, newydd ddyfod i law, gydag hyspysiad fod ein llongyfarchiad, gyda lluaws ereill, wedi eu gosod yn

---

† Dyrnai yn greulon ar fyfyrwyr diofal a musgrell.

ddyogel dan y garreg goffadwriaethol. Pwy fydd yn bresennol, tybed, pan ddygir hwy etto i oleu dydd? Dymunwn derfyniad buan i'r rhyfel anhapus presennol rhwng China a Japan.

Rhagfyr 12, rhoddodd rhai o foneddigesau eglwys Brondeifi wledd o de a bara brith i blant yr Ysgol Sul ac ereill ar y dydd uchod, ac ymddangosai pawb fel pe'n mawr fwynhau y danteithion lluosog. Yn yr hwyr, cafwyd cwrdd cystadleuol, a chan nad beth arall ellir ddywedyd am dano, gellir dweyd ei fod yn un lluosog—y capel yn orlawn, ac aeth y plant drwy eu gwaith yn bur ganmoladwy.

MERTHYR.—Deallwn fod y Parch. D. J. Williams, o Newark, wedi ateb yn gadarnhaol alwad unfrydol a dderbyniodd oddiwrth yr eglwys yn y lle hwn. Bwriada ddechreu ar ei waith tua dechreu Ebrill.

GELLIONEN.—Deallwn fod Mr. T. J. Jenkins, o Goleg Caerfyrddin, wedi derbyn galwad unfrydol oddiwrth yr eglwys hon, a'i fod yntau wedi ei hateb yn foddhaol. Eiddunwn lwyddiant mawr i'r eglwys a'i gweinidog.

Y CYNGHORAU NEWYDDION.—Caraswn fod yn abl i roddi rhestr gyflawn o deulu'r ffydd sydd wedi eu hethol yn aelodau i'r Cynghorau hyn. Maent yn lluosog, a chredwn y rhoddant gyfrif da o honynt eu hunain.

PORTHCAWL. — Cynnaliwyd Cymmanfa Ganu lewyrchus iawn yn y lle hwn ddydd Nadolig. Cymmanfa Undebol o'r eglwysi Ymneillduol oedd, a'r arweinydd oedd y Parch. W. J. Phillips. Ar y diwedd, talwyd teyrnged uchel o ganmoliaeth i Mr. Phillips am y llwyddiant anarferol a nodweddai y Gymmanfa. Barn unfryd pawb oedd mai hon oedd y Gymmanfa oreu a gynnaliwyd erioed yn Mhorthcawl.

Y PHOTOS.—Yn ein rhifyn nesaf, bydd *photo* o Tau Gimel—llenor, bardd, a phregethwr, yn nghyd ag ysgrif arno gan Dewi Hefin.

CEFNCOED.—Dydd Nadolig, cafodd plant Ysgol Sul yr H.D.C. eu anrhegu â gwledd o de a bara brith, yr hon a fwynhawyd yn ardderchog gan luaws mawr o honynt. Yn yr hwyr, canodd y plant yn odidog gantata gyssegredig, dan arweiniad Mr. D. Eiddil Jones. Yr oedd y lle yn orlawn. Anmhossibl yw canmol gormod ymdrechion Mr. Jones gyda'r bobl ieuanc. Mae ei waith yn anmhrisiadwy.

GELLIONEN A CHRAIGTREBANOS.—Rhagfyr 2, bu Mr. T. J. Jenkins, o Goleg Caerfyrddin, yn gwasanaethu yn y lleoedd uchod. Am reswm neillduol, yr oedd y Cymundeb wedi ei daflu bythefnos yn hwy nag arfer, ac yn dygwydd cymmeryd lle ar y dydd uchod. Derbyniodd Mr. Jenkins ddau o aelodau newyddion yn Gellionen yn y boreu; ac yn Nhrebanos, yn yr hwyr, pan y gweinyddwyd y Cymundeb am y waith gyntaf yn y capel newydd, a derbyniwd 21 o aelodau newyddion.

Rhagfyr 16, bu Mr. James Jenkins, o'r un Coleg, yn gwasanaethu yma. Derbyniodd yntau bedwar o aelodau newyddion i Gapel y Graig.

Y CYNGHOR PLWYFOL.—Da genym allu hyspysu fod Mr. Lewis Hopkin, Cathelid, wedi ei ethol yn un o'r rhai blaenaf ar y rhestr o 10 o aelodau allan o 26 o ymgeiswyr, dros Ranbarth Clydach. Hefyd, cafodd Mr. W. Howell Thomas, Craigtrebanos, ei ethol ar ben y rhestr o bump o aelodau dros Ranbarth Gellionen.

Y CYNGHOR DOSPARTH.—Wedi brwydr boeth, daeth Mr. Daniel W. John, Cwm, allan yn fuddugoliaethwr fel Cynghorwr Dosparth dros Ranbarth Gellionen. Gwelwn fod Undodiaid yn cael eu dewis i lanw swyddi cyhoeddus, er yn cael eu gwawdio gan lawer oblegyd eu syniadau crefyddol.

PRIODASAU.

O flaen y cofrestrydd, yn Nghellionen, unwyd mewn glân briodas Mr. David Gittins, Plasnewydd, Gellionen, â Miss Mary Jones, Coedcaemawr, Baran.

Dim ond byw sydd ganddynt etto,
Ond mae hyny'n hawdd i ddau,
Yr anhawsder bellach ydyw
Peidio byw i'r cyfryw rai;
Boed eu ffyrdd yn llawn rosynau,
Boed eu hoes yn Haf i gyd,
Nes y byddo'u haelwyd megys
Eden fechan yn y byd.

CYFAILL.

Tachwedd 9, yn Nghapelgroes, gan y Parch. E. E. Jenkins a'r cofrestrydd, William Jones, Castelldu, Llanwnen, ac Anne, merch D. Jenkins, Blaenwaun.

Tachwedd 10, yn Aberaeron, gan y cofrestrydd, Evan Evans, Ty'nffynnon, Llanbedr, â merch Gwarcwm, Ystrad

Eu hundeb fo'n gyfatebol—i'r wers
Ar eu hawr briodasol;
Iddynt ro'ed yn gydraddol,
Yn fwyn iawn boent fyw'n ei hol.

D.J.

CYMDEITHAS Y DYNION IEUAINC. — Byddai'n dda i ewyllyswyr da y Gymdeithas uchod i gofio nad oes ond ychydig o arian yn llaw y trysorydd ar hyn o bryd, ac fod yna un dyn ieuanc, o leiaf, yn bresennol yn curo wrth ddrws y Gymdeithas am gynnorthwy.

R. C. JONES.

Marwgofion.

Tachwedd 15, Margaret Edwards, anwyl ferch John a Margaret Edwards, Cwmcanol, Pencarreg, yn 19 mlwydd oed. Yn Abertawe, gyda ewythr iddi, y treuliodd yr ymadawedig ran fawr o'i hoes fer, ac yno yr hunodd yn yr angeu ar y dydd uchod. Y dydd Sadwrn canlynol, dygwyd yr hyn oedd farwol o honi gyda'r *train* i orsaf Llanbedr, ac oddiyno, gan dorf luosog o berthynasau a chyfeillion, i'r bedd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Tachwedd 27, David Thomas, Cefn Coed, yn 67 mlwydd oed. Genedigol o ardal Llandyssul oedd y cyfaill hwn, ond daeth i'r Cefn pan nad oedd ond ieuanc iawn, ac yno y bu fyw trwy ei oes. Peiriannydd oedd wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd yn grefftwr da. Darllenodd lawer iawn yn ei ddydd, a meddai ar gof gafaelgar annghyffredin, yn enwedig mewn materion hanesiol. Efe, ond odid, oedd yr aelod hynaf yn yr Hen-Dy-Cwrdd. Y Sadwrn canlynol, claddwyd ei weddillion yn mynwent yr H.D.C., a gwasanaethwyd gan y gweinidog. Duw fo'n dŵr i'r weddw a'r plant sydd ar ol.

Tachwedd 28, yn 81 mlwydd oed, Mrs. Anne Lewis, Penfarch, Llanfynydd. Claddwyd y Llun canlynol yn nghladdfa gyhoeddus Caerfyrddin, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y Parch. J. Davies, Alltplaca.

Rhagfyr 10, yn ddisymwth iawn, Gwen, anwyl ferch David Owen, 28, Mount Pleasant Street, Aberdar, ac wyres i'r ddiweddar Gweny Richard Jenkin, o fewn ychydig wythnosau i gyrhaedd ei 26ain oed. Yr oedd, fel arfer, yn y cwrdd nos Sul, ac yn canu'n hynod hwylus. Aeth i'r gwely fel arfer, ond boreu dranoeth fe'i cafwyd, os nid wedi dianc, yn mron felly. Yr oedd wedi ei blino gan ddolur y galon am rai blynyddau. Gwasanaethwyd ddydd yr angladd gan R.J.J., yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. Mr. Jacob, Bethel.

"Henffych i'r dydd cawn etto gwrdd," &c.

Rhagfyr 14, yn 48 oed, cyfarfuodd Dafydd Bowen, Fardref (gynt Cefnithrim), â'i ddiwedd mewn modd sydyn tra yn cynnorthwyo i symmud *boiler* ar olwynion ar hyd yr heol tua glofa Mr. Moody, Cwm Clydach, pan ddygwyddodd un o'r olwynion suddo yn yr heol, ac i'r *boiler* rolio arno, gan ei lethu yn y fan. Diangfa gyfyng gafodd un arall. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn tawel, gonest, a diwyd, ac o ran ei olygiadau crefyddol, yr oedd yn gogwyddo at Undodiaeth. Gadawodd briod, mam oedranus, yn nghyd â'i unig frawd, sef John Bowen, Forge and Hammer, Clydach, i alaru eu colled. Bydded iddynt ymddiried yn yr Hwn a fedr eu cysuro hyd y nod dan yr ergydion trymaf. Dydd Mercher canlynol, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono tua chladdfa Gellionen, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed.

Rhagfyr 26, Mary Jones, Cefncoed, yn 77 mlwydd oed. Yr oedd hithau hefyd yn un o aelodau hynaf yr Hen-Dy-Cwrdd, ac wedi gweled llawer tro ar fyd yn hanes yr eglwys. Mynychodd yr addoliad yn ffyddlon tra gallodd, a phan y methodd, carai glywed am ffyniant yr achos. Cafodd gystudd hir, ond cafodd bob tiriondeb i ymddal dano gan ei mab a'i merch-ynnghyfraith, Mr. a Mrs. William Jones, yn nhy y rhai y bu farw. Y Sadwrn canlynol, hebryngwyd yr hyn oedd farwol gan luaws o gyfeillion a pherthynasau i fynwent y capel yr arferai addoli ynddo, a gwasanaethwyd gan y gweinidog. Mae'r hen ffyddloniaid yn ymadael o un i un, ac nid oes genym ond gweddio ar Arglwydd y cynauaf godi gweithwyr newydd i gario yr achos yn y blaen. Boed i'r perthynasau oll ymddiried i'r Drefn ddoeth.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.